

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol Dirybudd

Ysbyty Bae Caerdydd – Nuffield
Health

Dyddiad yr arolygiad: 22 a 23
Chwefror 2022

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mai 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom	6
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Nuffield Health Bae Caerdydd ar 22 a 23 Chwefror 2022.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau arolygydd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd Ysbyty Bae Caerdydd yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd a oedd yn groesawgar ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Mynegodd y cleifion lefelau uchel o foddhad â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd, a gwelsom rhyngweithiadau caredig a pharchus rhwng y staff a'r cleifion bob amser.

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn gyffredinol yn yr ysbyty, a oedd yn cael eu cefnogi gan drefniadau llywodraethu cadarn.

Gwnaethom nodi nifer fach o welliannau fel y nodir isod.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mynegodd y cleifion lefelau uchel o foddhad â'u profiad
- Gwelwyd rhyngweithiadau caredig a pharchus rhwng y staff a'r cleifion
- Lefelau uchel o lanweithdra a gwaith cadw tŷ
- Trefniadau llywodraethu cadarn

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ynglŷn â storio a diogelwch meddyginiaeth

Gwnaethom nodi achos o dorri'r rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn o ran gwirio cyfarpar dadebru brys. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Derbyniodd AGIC ddigon o sicrwydd ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn bod camau wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae'r sefydliad dielw, Nuffield Health, yn gyfrifol am redeg Ysbyty Bae Caerdydd.

Mae'r ysbyty'n darparu ystod o ymgynghoriadau i gleifion allanol, profion diagnostig, a thriniaethau llawfeddygol (ac eithrio'r rhai pan fydd angen aros dros nos).

Ymhlith y cyfleusterau, mae 15 o ystafelloedd ymgynghori preifat, theatrau achosion dydd, ystafell endosgopi ac ystafell ddelweddu diagnostig.

Mae'r ysbyty'n cyflogi tîm o nyrsys, gweithwyr gofal iechyd, staff delweddu diagnostig, ymarferwyr theatr, staff gweinyddol a staff cymorth. Cyflogir ymgynghorwyr fel ymarferwyr meddygol annibynnol trwy drefniadau breintiau ymarfer. Mae'r swyddog meddygol preswyl yn cael ei gontractio drwy asiantaeth allanol.

Mae Ysbyty Bae Caerdydd yn gweithio'n agos gyda'i chwaer wasanaeth yn Ysbyty'r Fro gerllaw, sydd hefyd yn rhan o Nuffield Health.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion lefelau uchel o foddhad â'u profiad yn Ysbyty Bae Caerdydd a gwelsom ryngweithiadau gofalggar a pharchus rhwng y staff a'r cleifion bob amser.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn groesawgar ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn gyfforddus ac yn derbyn gofal mewn modd proffesiynol ac urddasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur. Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd pob un o'r deg o'r farn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Yng ngeiriau'r cleifion:

“Roedd pawb yn llawn cydymdeimlad ac yn amyneddgar. Cefais fy nhrin fel unigolyn.”

“Amgylchedd cyfeillgar a gwasanaeth cyflym.”

“Roedd y cyfan yn dda iawn, dim cwynion o gwbl”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd ystod o daflenni gwybodaeth ar gael yn yr ystafelloedd aros i'r cleifion eu darllen a'u cadw. Roedd y taflenni hyn yn benodol i driniaeth ac yn rhoi trosolwg i'r cleifion o'r weithdrefn.

Roedd nifer o bosteri a nodiadau atgoffa a oedd yn ymwneud â diogelwch COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys nodiadau atgoffa i wisgo masgiau, cadw pellter cymdeithasol a chynnal hylendid dwylo da.

Urddas a pharch

Gwnaethom arsylwi ar ryngweithiadau caredig a pharchus rhwng y staff a'r cleifion bob amser. Dywedodd pob un o'r deg claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff yr ysbyty. Yn

ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt wrth fynychu eu hapwyntiad.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn fodern ac yn rhoi profiad urddasol i'r cleifion. Roedd yr ardal cleifion allanol yn cynnwys nifer o ystafelloedd ymgynghori preifat, gyda'r drysau ar gau yn ystod yr ymgynghoriad i helpu i gynnal preifatrwydd y cleifion.

Roedd ystafell aros y theatr cyn llawdriniaeth yn cynnwys pedair cadair gyfforddus. Er bod y rhain yn agos at ei gilydd, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu gofal a'u triniaeth heb gael eu clywed gan bobl eraill. Roedd llenni i gynnal urddas y cleifion ymhellach yn y man adfer pedwar gwely pan oedd gofal uniongyrchol yn cael ei ddarparu.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal drwy'r amser.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad

Gwelsom fod ystod o wybodaeth ar gael i'r cleifion i'w helpu i ddeall eu cyflwr, eu gofal a'u triniaeth yn well.

Roedd trefniadau ar waith i roi gwybodaeth i'r cleifion am sut i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 cyn eu triniaeth arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i hunanynysu'n effeithiol pan fydd angen a sut i gael prawf COVID-19.

Gwelsom fod systemau priodol ar waith i gael a chofnodi cydsyniad y cleifion cyn triniaeth. Dywedodd pob claf ac eithrio un wrthym eu bod wedi llenwi ffurflen hanes meddygol neu y gwiriwyd eu hanes meddygol cyn cael unrhyw driniaeth.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn penderfyniadau am eu triniaeth a'u bod yn cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys derbyn digon o wybodaeth am y risgiau a'r buddion sy'n gysylltiedig â'u triniaeth.

Ar gyfer y cleifion a oedd yn gyfrifol am ariannu eu triniaeth, dywedodd pob claf wrthym fod cost y driniaeth wedi'i hegluro'n glir cyn iddynt dderbyn y driniaeth.

Dywedodd pob claf ac eithrio un wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu am eu hunain yn dilyn eu triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn tŷn garedig, broffesiynol a phriodol drwy'r amser yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn yn ymestyn i'r staff clinigol a'r staff anghlinigol drwy gydol taith y claf.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith a'u bod yn gallu cyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith. Roedd hyn yn cynnwys derbyn gwybodaeth gofal iechyd yn eu dewis iaith.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom ddeinameg tîm da rhwng y timau clinigol. Roedd yn ymddangos bod y timau staff, gan gynnwys y nyrsys a'r ymgynghorwyr yn gweithio'n gydlynol er budd y cleifion. Gwelsom fod cyfranogiad y cleifion yn dda, gyda'r cleifion yn cael amser i ofyn cwestiynau am eu triniaethau arfaethedig.

Roedd yn gadarnhaol gweld ymgynghorydd yn rhoi esboniad manwl o'r weithdrefn i glaf fel rhan o'r broses gwybodaeth a chaniatâd. Rhoddwyd gwybodaeth glir i'r claf am yr hyn yr oedd y driniaeth yn ei olygu, disgwyliadau unigol a chanlyniadau cyffredinol. Roedd yn nodedig bod yr ymgynghorydd wedi darparu ystadegau cenedlaethol a'u cyfradd llwyddiant a methiant eu hunain ar gyfer y weithdrefn arfaethedig. Roedd yn amlwg bod hyn yn rhoi sicrwydd i'r claf.

Gwelsom fod asesiadau cynhwysfawr yn cael eu cynnal a oedd yn berthnasol i'r weithdrefn arfaethedig a bod y rhain yn cael eu hadolygu lle bo angen.

Gwnaethom ganfod bod prosesau rhyddhau priodol ar waith ar gyfer y cleifion a oedd yn cael gweithdrefnau llawfeddygol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio rhestr wirio safonol, galwadau ffôn dilynol ar adegau priodol a gwybodaeth ysgrifenedig, megis gwybodaeth sy'n ymwneud â lleddfu poen neu os oes gan y claf unrhyw bryderon.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cynghorir y cleifion i fynychu apwyntiadau ar eu pen eu hunain mewn ymdrech i leihau trosglwyddiad COVID-19. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y gellid gwneud eithriadau, er enghraifft pe bai angen hebryngwr neu gymorth ychwanegol ar y claf i gael mynediad i'r gwasanaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol yn gyffredinol o'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ac yn darparu gofal i'r rhai a allai fod â diffyg galluedd. Dywedodd yr holl staff wrthym eu bod wedi derbyn hyfforddiant galluedd meddyliol / trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) a gwnaethom gadarnhau hyn drwy adolygu cofnodion hyfforddiant gorfodol.

Dyweddodd un aelod o staff wrthym fod diwrnod astudio dementia wedi'i ohirio oherwydd y pandemig ac y byddai'n ddefnyddiol pe bai'n cael ei ail-drefnu.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth hynod gadarnhaol yn ymwneud â'u profiad yn y gwasanaeth hwn.

Gwelsom fod systemau priodol ar waith i gael, adolygu ac ymateb i adborth a chwynion y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys arolygon boddhad cleifion a ddarparwyd i'r cleifion yn dilyn eu triniaeth.

Roedd taflenni adborth hefyd ar gael ar draws yr ysbyty ac roedd hyn yn cynnwys manylion am y broses gwyno ffurfiol os oedd angen. Roedd manylion sefydliadau allanol, gan gynnwys AGIC, wedi'u rhestru yn y llenyddiaeth hon er mwyn rhoi cymorth a chynghor ychwanegol i'r cleifion.

Canfuom y bu nifer isel o gwynion. Gwnaethom adolygu sampl o'r rhain a chanfod eu bod wedi'u cydnabod ac wedi cael eu hateb o fewn amserlen briodol. Roedd prosesau llywodraethu addas ar waith i adolygu a monitro adborth a chwynion ar lefel uwch yn y gwasanaeth.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y staff wedi ymrwymo i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd safon uchel o lanweithdra a gwaith cadw tŷ yn yr ysbyty ac roedd risgiau'n cael eu rheoli mewn modd priodol.

Gwnaethom un gwelliant mewn perthynas â storio a diogelwch meddyginiaeth.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod ystod o asesiadau risg wedi'u hanelu at gynnal amgylchedd diogel ar gyfer y staff, yr ymwelwyr a'r cleifion. Roedd yr asesiadau risg hyn yn ymddangos i fod yn gynhwysfawr ac wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau eu heffeithiolrwydd parhaus.

Mae'r gwaith o fonitro a goruchwyllo risg yn cael ei fonitro trwy ystod o brosesau llywodraethu, gan gynnwys pwyllgor iechyd a diogelwch ysbyty a fynychir gan uwch-aelodau o dîm rheoli'r ysbyty ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

Dywedwyd wrthym fod problemau hysbys gydag agweddau ar y goleuadau argyfwng a'r system dân yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod gwaith adfer ar y gweill yn fuan i gywiro'r rhain.

Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd wedi'u cwblhau a'u cofnodi ar gyfer cloch alw'r nyrs a'r botwm ataliad y galon yn yr ardaloedd clinigol.

Roedd y gwaith o wasanaethu diffoddwyr tân wedi'i gwblhau o fewn y 12 mis diwethaf a chynhaliwyd gwiriadau botymau larwm tân bob yn ail. Roedd warden tân dynodedig yn yr ysbyty ac roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn diogelwch tân.

Gwnaethom nodi bod gwaith fflysio dŵr rheolaidd i leihau'r risg o legionella a gwiriadau tymheredd dŵr yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Roedd yr holl

sylweddau glanhau a chynnal a chadw yn cael eu storio mewn ystafell storio dan glo.

Gwelsom fod yr holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd uniongyrchol o leiaf, a bod pob aelod o staff ond un wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd pediatrig sylfaenol.

Roedd gan yr ysbyty ddau droli dadebru a oedd yn hygyrch mewn argyfwng. Fodd bynnag, canfuom nad oedd gwiriadau dyddiol ac wythnosol wedi'u cofnodi'n gyson.

Oherwydd natur y pryder hwn, fe aethom i'r afael â'r mater hwn drwy broses diffyg cydymffurfedd AGIC. Cawsom ddigon o sicrwydd gan y gwasanaeth bod hwn wedi'i gywiro erbyn adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Gellir gweld manylion y camau a gymerwyd yn Atodiad B.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Roedd pob rhan o'r ysbyty i'w gweld yn lân ac yn drefnus. Gwnaethom arsylwi ar y staff cadw tŷ a oedd yn cwblhau tasgau'n ddiwyd ac a ddangosodd lawer o falchder yn eu gwaith, a gwnaethom siarad â nhw.

Roedd y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir drwy'r amser. Gwelsom y staff yn gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol yn briodol wrth fynd i mewn ac allan o ardaloedd clinigol. Dywedodd pob aelod o staff ac eithrio un wrthym y bu digon o gyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, gwnaethom gadarnhau bod digon o stoc ar gael ar adeg yr arolygiad.

Roedd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus am faterion atal a rheoli heintiau a sut yr oedd yn berthnasol i'w rolau. Dywedodd pob aelod o staff ac eithrio un a gwblhaodd holiadur wrthym fod y gwasanaeth wedi rhoi'r newidiadau amgylcheddol ac ymarferol angenrheidiol ar waith mewn ymateb i COVID-19. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Roedd protocolau COVID-19 cryf ar waith trwy gydol y pandemig gyda newidiadau yn cael eu gwneud i amddiffyn y staff a'r cleifion”

“Bob amser yn teimlo'n ddiogel o ran COVID-19, roedd y [rôl] yn sicrhau bod gennym bopeth yr oedd ei angen arnom a phrofion llif unffordd da”

“Yr unig fai yw nad yw rhai o'r [staff] yn parchu unrhyw bellter rhwng y cleifion wrth fynd trwy'r sgrinio COVID-19”

Dywedodd yr holl staff wrthym fod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn bob amser yn gyffredinol.

Yn ddiethriad, nododd y cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth yn 'lân iawn' a gwnaethant nodi bod gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn 'amlwg iawn' yn ystod eu hamser yn y gwasanaeth.

Ar y cyfan, gwelsom ymlyniad da at brotocolau hylendid dwylo. Gwelwyd y staff yn defnyddio gel alcohol wrth symud rhwng y cleifion a gwelsom rai aelodau o staff yn ymolchi dwylo pan oedd hynny'n briodol.

Gwelsom fod offer a rennir a dyfeisiau meddygol y gellir eu haildefnyddio wedi'u diheintio'n briodol cyn eu defnyddio eto. Roedd labeli i ddangos bod eitem wedi'i lanhau yn cael eu defnyddio.

Gwelsom fod rhaglen dreigl o archwiliadau rheoli heintiau. Roedd y rhain i gyd wedi'u cwblhau a chawsant sgôr uchel ar y cyfan. Roedd prosesau llywodraethu clir i fonitro a darparu trosolwg o faterion atal a rheoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys pwyllgor atal a rheoli heintiau ysbyty cyfan, a fynychwyd gan staff clinigol arweiniol dynodedig ym maes atal a rheoli heintiau.

Maethiad

Nid oes darpariaeth dros nos yn y gwasanaeth hwn, felly, mae llai o angen i gynnig darpariaeth arlwyo iawn i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod y cleifion llawfeddygol yn cael cynnig lluniaeth priodol ar ôl eu triniaeth. Gwnaethom hefyd nodi bod cyfleuster ar gael i ddarparu cynnig arlwyo mwy sylweddol pe bai angen. Roedd dŵr a diodydd poeth yn hygyrch ac ar gael drwy'r amser.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi a gweithdrefn briodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o sut roedd yn berthnasol i'w rôl, gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer rhagnodi meddyginiaeth yn gywir, a sut i gyrchu'r polisi pan fydd angen.

Gwelsom fod y gwaith o storio meddyginiaeth yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom rai materion sy'n ymwneud â mynediad at feddyginiaethau a diogelwch meddyginiaethau. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Roedd hylifau mewnwythiennol yn cael eu storio mewn ystafell heb ei chloi a oedd yn cael ei defnyddio i storio mygiau ac offer arall. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y mygiau'n cael eu tynnu o'r un silff â'r hylifau mewnwythiennol a bod y drws yn cael ei gloi pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.
- Nid oedd meddyginiaeth sy'n cael ei storio mewn oergelloedd a chypyrddau yn yr adran theatr bob amser yn cael ei gloi pan nad oedd yn

cael ei defnyddio. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu diogelu'n briodol.

Gwelsom fod y storfa feddyginiaeth a'r drefniadaeth gyffredinol yn yr adran cleifion allanol o safon nodedig o dda.

Gwnaethom adolygu'r gwaith o storio cyffuriau a reolir a chanfod bod y rhain yn cael eu gwirio'n gyson ddwywaith y dydd a'u cofnodi'n briodol. Gwnaethom nodi bod gwiriadau tymheredd oergelloedd yn cael eu monitro'n awtomatig gan gwmni allanol a bod trefniadau ar waith pe bai nam yn datblygu y tu allan i oriau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio a'u diogelu'n briodol bob amser.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn briodol ar waith i'w dilyn pe byddai unrhyw bryderon diogelu sy'n ymwneud ag oedolion neu blant a allai fod yn agored i niwed.

Roedd arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer yr ysbyty ac roedd y staff yn gwybod pwy i gysylltu ag ef pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Cadarnhaodd pob aelod o staff eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu a gwnaethom gadarnhau fod hwn wedi'i gwblhau i lefel briodol gan yr holl staff.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y gwasanaeth ystod o ddyfeisiadau, offer a systemau meddygol a oedd yn ymddangos i ddiwallu anghenion gofal a thriniaeth y cleifion.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac ar gyfer adrodd am unrhyw faterion. Roedd staff rheoli cyfleusterau dynodedig wedi'u lleoli yn yr ysbyty i gefnogi hyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod nifer o bolisiâu, gweithdrefnau a phrosesau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn cefnogi a monitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Mae diweddariadau, digwyddiadau a dysgu clinigol yn cael eu trafod mewn ystod o bwyllgorau mewnol arbenigol, a fynychir gan bob pennaeth adran clinigol.

Roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn ymddangos i fod yn gadarn ac roedd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu monitro a'u diweddarau'n briodol.

Cwblhawyd asesiadau risg cleifion unigol fel rhan o'r broses cyn-asesu ar gyfer y cleifion a oedd yn cael llawdriniaethau. Roedd hyn yn cynnwys proses gadarn ar gyfer cadarnhau statws ynysu a phrofi cleifion ar gyfer COVID-19 cyn eu gweithdrefn arfaethedig.

Gwelsom fod cyfathrebu da rhwng y tîm meddygol, y tîm nyrsio a'r tîm anghlinigol. Gwelsom ryngweithiadau proffesiynol bob amser.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at y weithdrefn sepsis. Roedd y staff yn gallu disgrifio'r camau gweithredu y byddent yn eu cymryd ac roeddent yn ymddangos yn hyderus o ran sut i ymateb yn briodol.

Roedd gweithdrefn glir ar waith ar gyfer trosglwyddo cleifion y gallai fod angen mwy o ofal clinigol arnynt mewn ysbyty lleol. Gwnaethom nodi y byddai unrhyw drosglwyddiadau i ysbyty arall yn cael eu hymchwilio ac roedd y weithdrefn yn cynnwys darpariaeth i hysbysu AGIC o'r digwyddiadau hyn.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan yr ysbyty amrywiaeth o fecanweithiau ar waith i gael adborth gan y cleifion ac roedd tystiolaeth bod adborth yn cael ei rannu â'r timau perthnasol i sicrhau dysgu ehangach.

Gwelsom hefyd fod digwyddiadau'n cael eu hadolygu mewn modd amserol a bod canlyniadau digwyddiadau'n cael eu rhannu o brosesau llywodraethu ffurfiol i dimau yn yr ysbyty. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y pwyllgorau llywodraethu hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o safleoedd eraill o fewn y grŵp Nuffield i leihau'r risg o ddigwyddiadau'n cael eu hailadrodd mewn mannau eraill.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio ar system electronig, a oedd yn ymddangos yn ddiogel gyda mynediad cyfyngedig.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion a chanfod eu bod wedi'u cwblhau i safon dda ar y cyfan.

Roedd prosesau archwilio clir ar waith i fonitro ansawdd y gwaith o gadw cofnodion. Roedd yr archwiliad diweddaraf yn dangos bod rhywfaint o le i wella, ond roedd ail archwiliad eisoes wedi'i drefnu i fonitro gwelliannau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Ar y cyfan, gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr ysbyty. Roedd yn ymddangos bod y timau staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd er budd y cleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer monitro ac archwilio systemau, arferion a phrosesau yn yr ysbyty. Canfuom fod llif da o wybodaeth rhwng y staff a rheolwyr yr ysbyty.

Dylai'r ysbyty fyfyrion ar yr adborth a ddarperir yn yr adroddiad hwn i gynorthwyo unrhyw ddysgu neu gamau gweithredu pellach.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a chyfarwyddwr dros dro'r ysbyty wedi dangos ymrwymiad cryf i gefnogi'r staff a darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion mewn amgylchedd croesawgar. Roedd y rheolwyr yn barod i dderbyn ein barn a'n canfyddiadau trwy gydol yr arolygiad.

Roedd llinellau rheoli ac atebolrwydd clir trwy gydol timau rheolwyr a thimau staff. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch sut yr oeddent yn cyflawni eu rolau ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at y cleifion a'u cydweithwyr eraill.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd pwyllgor llywodraethu i gefnogi'r gwaith o redeg yr ysbyty yn effeithiol a chyfathrebu effeithiol rhwng timau'r ysbyty. Roedd cyfarfod dyddiol bob bore rhwng penaeithiaid adrannau yn ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â niferoedd cleifion, materion staffio a materion o bryder bob dydd.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod prosesau llywodraethu cadarn ar waith i ymchwilio i bryderon a digwyddiadau ac ymateb iddynt. Roedd hyn yn cynnwys polisiâu priodol a

defnydd o'r system DATIX i gofnodi pob digwyddiad, damwain a damwain y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

Gwnaethom adolygu sampl o ddigwyddiadau a chanfod bod yr hyn a ddysgwyd wedi'i ledaenu i'r staff a thimau perthnasol ar draws yr ysbyty. Roedd yn gadarnhaol nodi y rhannwyd yr hyn a ddysgwyd o safleoedd eraill o fewn y grŵp Nuffield er mwyn lleihau'r risg y byddai digwyddiadau'n cael eu hailadrodd mewn mannau eraill.

Dywedodd wyth aelod o staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi gweld camgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad arall yn ystod y mis diwethaf, ond cytunodd yr holl staff fod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am y rhain. Fodd bynnag, ymatebodd chwarter y staff yn niwtral fod y sefydliad yn trin y staff sy'n ymwneud â chamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad arall mewn modd teg. Cytunodd yr holl staff, pan adroddwyd ar gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill, fod eu sefydliad yn cymryd camau gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto.

Cytunodd pob aelod o staff ac eithrio un y byddent yn gwybod sut i godi pryderon am arferion clinigol anniogel a dywedodd pawb ac eithrio un wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi'r pryderon hyn. Ychwanegodd bron pob aelod o staff fod diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu bob amser neu fel arfer yn y sefydliad.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar y cyfan, gwelsom dîm o staff proffesiynol ac ymroddedig yn yr ysbyty. Roedd hyn yn ymestyn i'r timau clinigol ac anghlinigol. Gwelwyd bod y staff yn dangos ymrwymiad i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion a gofal o ansawdd uchel.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu cefnogi yn y gweithle. Ychwanegodd rhai aelodau o staff, er bod nifer o newidiadau staffio wedi bod yn yr ysbyty, eu bod wedi dweud bod y newid hwn wedi'i reoli'n dda a bod effaith gadarnhaol i'w theimlo.

Gwelsom fod nifer fach o swyddi gwag ar adeg yr arolygiad, ond dywedwyd wrthym fod ymdrechion recriwtio ar waith i lenwi'r swyddi gwag hyn.

Dywedwyd wrthym fod angen staff asiantaeth clinigol ar brydiau, ond mae gan yr ysbyty fynediad at gronfa reolaidd o nyrsys banc sy'n gyfarwydd ag amgylchedd yr ysbyty.

Gwnaethom adolygu sampl o rotâu staff a chanfod bod digon o staff i ddiwallu anghenion y cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod rhestrau theatrau ac

apwyntiadau cleifion allanol yn cael eu trefnu ymlaen llaw, sy'n helpu i gynllunio trefniadau staffio priodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau staff a chanfod bod yr holl staff wedi cael gwiriadau priodol cyn cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweiliadau, cael geirdaon, a chwblhau gwiriadau gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd i helpu i sicrhau addasrwydd y staff.

Roedd proses lywodraethu glir a phriodol ar waith i adolygu a rhoi breintiau ymarfer i'r ymarferwyr meddygol annibynnol sy'n trin y cleifion yn yr ysbyty.

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch, diogelwch tân, rheoli heintiau, diogelu a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid / galluedd meddyliol. Canfuom fod lefelau hyfforddiant gorfodol yn uchel ym mhob un o'r meysydd hyn.

Roedd y meysydd hyfforddiant clinigol gorfodol ychwanegol a gyflawnodd lefelau cydymffurfedd yr un mor uchel a'i gilydd yn cynnwys y canlynol: cydsynio i archwiliad neu driniaeth, Techneg Gwrth-gyffwrdd Aseptig¹, ymwybyddiaeth COVID-19 a chadw cofnodion iechyd.

Gwelsom hefyd fod ystod o gyfleoedd hyfforddi clinigol allanol wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dywedwyd wrthym fod y rhain yn seiliedig ar geisiadau anghenion hyfforddiant a gyflwynwyd gan y staff.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w maes gwaith. Roedd rhai sylwadau ar hyfforddiant y byddai'r staff yn ei ystyried yn ddefnyddiol yn cynnwys y canlynol:

“E-ddysgu sy'n benodol i'r rôl”

“Hyfforddiant Alcon ar beiriant”

¹

“Hyfforddiant ar beth i’w wneud pan fydd y larwm yn canu (cordiau brys) a sut i helpu”

Dywedodd bron i dri chwarter y staff wrthym fod anghenion hyfforddi a datblygu wedi'u nodi. Dywedodd ychydig dros dri chwarter y staff wrthym fod eu rheolwr yn eu cefnogi i gael hyfforddiant a datblygiad.

Gwelsom lefel uchel o gydymffurfedd â'r broses gwerthuso a pherfformiad staff blynyddol. Dywedodd bron pob un o'r staff wrthym eu bod wedi cwblhau arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf.

Dywedodd pob aelod o staff ac eithrio un wrthym fod hyfforddiant bob amser neu fel arfer yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol a nododd dau ei fod yn gwneud hynny weithiau.

Dywedodd yr holl staff wrthym fod hyfforddiant bob amser neu fel arfer yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol.

Dywedodd pob aelod o'r staff ac eithrio un wrthym fod hyfforddiant bob amser neu fel arfer yn eu helpu i ddarparu profiad gwell i'r claf a nododd un ei fod yn gwneud hynny weithiau.

Y Rheolwr Uniongyrchol

Dywedodd bron pob un o'r staff a lenwodd holiadur wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn annog gwaith tîm ac y gallent ddibynnu arno i helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith.

Dywedodd bron pob un o'r staff wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol bob amser neu fel arfer yn rhoi adborth clir ar eu gwaith. Dywedodd tri chwarter wrthym fod eu rheolwr yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Dywedodd ychydig dros dri chwarter y staff wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol bob amser neu fel arfer yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Rhoddwyd y sylwadau canlynol gan y staff am eu rheolwyr uniongyrchol, roedd rhai yn cynnwys y canlynol:

“Mae [enw] wedi bod yn rheolwr anhygoel a gallaf ddibynnu'n hyderus bob amser ar ei garedigrwydd, ei gymorth, ei drugaredd a'i gymorth yn y gweithle ac ... fy mywyd personol.”

“Rwyf bob amser wedi teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi llawer gan y rheolwr uniongyrchol a hefyd gweddill yr uwch-dîm arwain yn yr ysbyty.

Rhoddir adborth rheolaidd ar berfformiad ac mae bob amser yn adeiladol gyda datblygiad personol yn cael ei annog bob amser.”

“Mae fy rheolwr llinell wedi bod yn anhygoel gyda mi ac yn gefnogol iawn ers i mi ddechrau ... Mae [enw] a'r tîm wedi bod mor anhygoel o ran cyfnewid shifftiau a fy nghefnogi yn gyffredinol trwy'r cyfnod ofnadwy hwn. Methu gofyn am reolwr gwell”

“Yn bendant, mae fy rheolwr yn gwneud [ei] orau glas i gydbwyso'r galwadau gan yr uwch-reolwyr â realiti'r llwyth gwaith sy'n ein hwynebu, ond [mae'n] gyfyngedig o ran faint [y gallai] ei wneud pan fydd y gofynion yn dod o uwch-aelodau o staff yn y sefydliad.”

Uwch-reolwyr

Dywedodd bron yr holl staff a gwblhaodd yr holiadur ar-lein wrthym eu bod yn adnabod yr uwch-reolwyr yn eu sefydliad.

Dywedodd bron pob un o'r staff wrthym fod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Dywedodd dwy ran o dair o'r staff wrthym fod yr uwch-reolwyr bob amser yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig.

Dywedodd tri chwarter y staff wrthym fod yr uwch-reolwyr yn gweithredu ar adborth y staff a dywedodd bron pob aelod o staff wrthym eu bod yn ymroddedig i ofal cleifion.

Rhodddwyd y sylwadau canlynol gan y staff am eu huwch-reolwyr:

“Mae'r uwch-reolwyr bob amser wedi bod yn weladwy ar y safle ac rwyf wedi ystyried pob aelod o'r uwch-dîm rheoli fel eu bod bob amser yn agored ac yn hawdd ymgysylltu â nhw ac maen nhw wedi bod yn agored i awgrymiadau ar gyfer gwella ac ystyried fy safbwyntiau a'm pryderon...”

“Mae'r uwch-reolwyr yn bell oddi wrth faterion y staff ac yn gwella'n fras ar ôl arolygiad ond yn gyffredinol maent yn bell i ffwrdd”

Iechyd a llesiant yn y gwaith

Cytunodd tri chwarter y staff nad yw eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd ac roedd bron pob aelod o staff yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd.

Fodd bynnag, cytunodd tri chwarter y staff eu bod yn cael cynnig cymorth llawn mewn sefyllfaoedd heriol. Roedd bron pob un o'r staff yn cytuno eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael.

Dywedodd ychydig dros dri chwarter o'r staff wrthym fod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng eu bywyd personol a gwaith. Roedd rhai sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"... Rwy'n teimlo bod yr ysbyty'n caniatáu i mi gynnal cydbwysedd da rhwng fy mywyd personol a gwaith, mae cymorth rhagorol ar gael i'r staff ynghylch llesiant drwy ein cynllun Gofal Iechyd a mynediad ar unwaith at gymorth iechyd meddwl."

"Mae hyrwyddwyr llesiant meddyliol sy'n wych"

"Rwyf wedi cael problemau [corfforol] sydd wedi'u gwaethygu gan fy ngwaith ond mae fy rheolwr llinell wedi bod yn gefnogol iawn i roi pethau ar waith i leihau hyn"

"Patrwm/rota sifft annheg ymhlith y staff sy'n rhannu'r un oriau contract"

Cydraddoldeb

Cytunodd bron pob aelod o staffod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle waeth beth fo'r nodwedd warchodedig². Dywedodd tri aelod o staff eu bod yn credu eu bod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf, ar sail oedran neu anabledd.

Er bod ymatebion y staff i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan, dylai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr adborth a ddarparwyd gan y staff i benderfynu a oes angen unrhyw gamau pellach.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr adborth a ddarparwyd gan y staff i benderfynu a oes angen unrhyw gamau pellach.

² E.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysylltu a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cwrdd â'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n briodol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
-	-	-	-

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Nuffield Bae Caerdydd

Ardal: -

Dyddiad yr arolygiad: 22-23 Chwefror 2022

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Y camau sydd i'w cymryd	Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<u>Gwiriadau troliâu dadebru</u> Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau dyddiol ac wythnosol o'r troli dadebru brys yn cael eu cwblhau bob amser.	Rheoliad 15	Y Rheolwr Radioleg a'r Rheolwr Theatrau sy'n gyfrifol bellach am wiriadau dyddiol ac wythnosol o'r troli dadebru brys ar gyfer eu hadrannau priodol. Metron i gynnal archwiliadau wythnosol gan ddefnyddio offeryn archwilio (ynghlwm) a bydd y canlyniadau'n cael eu bwydo'n ôl i gyfarfod chwarterol y Pwyllgor Dadebru.	Metron	28 Chwefror 2022

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):	Melanie Webber Maybank
Rôl:	Cyfarwyddwr Ysbyty Dros Dro
Dyddiad:	28 Chwefror 2022

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Nuffield – Ysbyty Bae Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio a'u diogelu'n briodol bob amser.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15(5) (a)	Mae cwpanau wedi'u tynnu a hylifau wedi'u symud i ystafell arall dan glo.	Arweinydd Theatr	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr adborth a ddarparwyd gan y staff i benderfynu a oes angen unrhyw gamau pellach.	Rheoliad 19	Bydd adborth yn cael ei fonitro trwy ein harolwg staff PEAKON mewnol.	Tîm uwch-reolwyr	Yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): R Thomas

Swydd: Rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 7 Ebrill 2022